OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2011 Rhif 1948 (Cy.214)

# ADDYSG, CYMRU

# Gorchymyn Y Cwricwlwm Cenedlaethol (Trefniadau Asesu Diwedd y Cyfnod Sylfaen a Dirymu Trefniadau Asesu'r Cyfnod Allweddol Cyntaf) (Cymru) 2011

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

O dan adran 108(2)(b)(iii) o Ddeddf Addysg 2002 caiff Gweinidogion Cymru bennu drwy orchymyn unrhyw drefniadau asesu sydd yn eu barn hwy yn briodol i'r cyfnod sylfaen.

Mae'r Gorchymyn hwn yn darparu i ddisgyblion gael eu hasesu yn y flwyddyn olaf o'r cyfnod sylfaen gan athro neu athrawes ac mae'n gosod diben yr asesiadau hynny (erthyglau 3 a 4). Mae'r Gorchymyn hwn hefyd yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud darpariaeth sy'n rhoi effaith i'r darpariaethau a wneir gan y Gorchymyn neu yn ychwanegu atynt fel arall (erthygl 5).

Ar ben hynny, mae'r Gorchymyn hwn hefyd yn darparu ar gyfer dirymu trefniadau asesu'r cyfnod allweddol cyntaf a nodir yng Ngorchymyn Addysg (Y Cwricwlwm Cenedlaethol) (Y Trefniadau Asesu ar gyfer Cymraeg, Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth) (Cyfnod Allweddol 1) (Cymru) 2002 (erthygl 1(4)).

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2011 No. 1948 (W.214)

# EDUCATION, WALES

# The National Curriculum (End of Foundation Phase Assessment Arrangements and Revocation of the First Key Stage Assessment Arrangements) (Wales) Order 2011

## EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Order)*

Under section 108(2)(b)(iii) of the Education Act 2002 the Welsh Ministers may specify by order, such assessment arrangements as they consider appropriate for the foundation phase.

This Order provides for pupils to be assessed in the final year of the foundation phase by a teacher, and sets out the purpose of such assessments (articles 3 and 4). This Order also enables the Welsh Ministers to make provision giving effect to or otherwise supplementing the provisions made by the Order (article 5).

In addition this Order also provides for the repeal of the assessment arrangements for the first key stage set out in the Education (National Curriculum) (Assessment Arrangements for English, Welsh, Mathematics and Science) (Key Stage 1) (Wales) Order 2002 (article 1(4)).

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2011 Rhif 1948 (Cy.214)

# ADDYSG, CYMRU

## Gorchymyn Y Cwricwlwm Cenedlaethol (Trefniadau Asesu Diwedd y Cyfnod Sylfaen a Dirymu Trefniadau Asesu'r Cyfnod Allweddol Cyntaf) (Cymru) 2011

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *29 Gorffennaf 2011* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru* | *5 Awst 2011* |
| *Yn dod i rym* | *1 Medi 2011* |

Mae Gweinidogion Cymru drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 108(2)(b)(iii), (3)(c) a (5) i (11) a 210 o Ddeddf Addysg 2002(**1**) yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

**Enwi, cychwyn, cymhwyso a dirymu**

**1**.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Y Cwricwlwm Cenedlaethol (Trefniadau Asesu Diwedd y Cyfnod Sylfaen a Dirymu Trefniadau Asesu'r Cyfnod Allweddol Cyntaf) (Cymru) 2011 a daw i rym ar 1 Medi 2011.

(2) Mae darpariaethau'r Gorchymyn hwn yn gymwys at ddibenion canfod cyraeddiadau ym meysydd dysgu perthnasol plant sydd yn y flwyddyn olaf o'r cyfnod sylfaen.

(3) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran ysgolion a gynhelir yng Nghymru.

(4) Mae Gorchymyn Addysg (Y Cwricwlwm Cenedlaethol) (Y Trefniadau Asesu ar gyfer Cymraeg, Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth) (Cyfnod Allweddol 1) (Cymru) 2002(**2**) wedi ei ddirymu.

(**1**) 2002 p.32. Diwygiwyd is-adran (2) o adran 108 gan adran 21(1) a (7)(a) o Fesur Addysg (Cymru) 2009 (mccc 5). Diwygiwyd is-adran (6) o adran 108 gan O.S. 2010/1158 ac is-adran (11) gan baragraffau 11 i 13 o'r Atodlen i Fesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009 (mccc 1).

(**2**) O.S. 2002/45 (Cy.4).

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2011 No. 1948 (W.214)

# EDUCATION, WALES

## The National Curriculum (End of Foundation Phase Assessment Arrangements and Revocation of the First Key Stage Assessment Arrangements) (Wales) Order 2011

| | |
|---|---|
| *Made* | *29 July 2011* |
| *Laid before the National Assembly for Wales* | *5 August 2011* |
| *Coming into force* | *1 September 2011* |

The Welsh Ministers in exercise of the powers conferred on them by sections 108(2)(b)(iii), (3)(c), and (5) to (11) and 210 of the Education Act 2002(**1**) make the following Order:

**Title, commencement, application and revocation**

**1**.—(1) The title of this Order is the National Curriculum (End of Foundation Phase Assessment Arrangements and Repeal of the First Key Stage Assessment Arrangements) (Wales) Order 2011 and it comes into force on 1 September 2011.

(2) The provisions of this Order apply for the purposes of ascertaining the achievements in the relevant areas of learning of pupils who are in the final year of the foundation phase.

(3) This Order applies in relation to maintained schools in Wales.

(4) The Education (National Curriculum) (Assessment Arrangements for English, Welsh, Mathematics and Science) (Key Stage 1) (Wales) Order 2002(**2**) is revoked.

(**1**) 2002 c.32. Sub-section (2) of section 108 was amended by section 21(1) and (7)(a) of the Education (Wales) Measure 2009 (nawm 5). Sub-section (6) of section 108 was amended by S.I. 2010/1158 and sub-section (11) was amended by paragraphs 11 to 13 of the Schedule to the Learning and Skills (Wales) Measure 2009 (nawm 1).

(**2**) S.I. 2002/45 (W.4).

**Dehongli**

**2**. Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "deilliannau cyfnod sylfaen" ("*foundation phase outcomes*") yw'r deilliannau a nodir yn y ddogfen;

ystyr "y ddogfen" ("*the document*") yw'r ddogfen o'r enw "Y Cyfnod Sylfaen - Fframwaith ar gyfer Dysgu Plant 3 i 7 oed yng Nghymru"(**1**) a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru ac sy'n pennu'r meysydd dysgu, a'r deilliannau a'r rhaglenni addysgol mewn perthynas â'r meysydd dysgu hynny;

ystyr "diwrnod gwaith" ("*working day*") yw diwrnod nad yw'n ddydd Sadwrn, yn ddydd Sul, nac yn ŵyl y banc o fewn yr ystyr a roddir i "bank holiday" gan adran 1 o Ddeddf Bancio a Thrafodion Ariannol 1971(**2**);

ystyr "meysydd dysgu" ("*areas of learning*") yw'r meysydd dysgu a nodir yn y ddogfen;

ystyr "meysydd dysgu perthnasol" ("*relevant areas of learning*") yw—

(i) datblygiad mathemategol,

(ii) datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol, ac

(iii) sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu; ac

ystyr "tymor yr haf" ("*summer term*") yw'r tymor olaf mewn blwyddyn ysgol.

**Asesu gan athrawon - cyffredinol**

**3**.—(1) Rhaid i'r pennaeth wneud trefniadau i bob disgybl gael ei asesu gan athro neu athrawes ym mhob un o'r meysydd dysgu perthnasol yn unol â darpariaethau'r erthygl hon ac i gofnod ysgrifenedig o'r canlyniadau gael ei wneud gan yr athro neu'r athrawes.

(2) Rhaid i'r disgybl gael ei asesu a rhaid i'r athro neu'r athrawes gofnodi'r canlyniadau ddim hwyrach nag ugain niwrnod gwaith cyn diwedd tymor yr haf.

**Asesu gan athrawon - meysydd dysgu perthnasol**

**4**.—(1) Diben yr asesu yw penderfynu'r deilliant cyfnod sylfaen y mae'r disgybl wedi ei gyrraedd ym mhob maes dysgu perthnasol.

(2) Rhaid i'r cofnod o'r canlyniadau fod ar ffurf datganiad cryno o bob deilliant cyfnod sylfaen y mae'r disgybl wedi ei gyrraedd ym mhob maes dysgu perthnasol.

(**1**) Rhif ISBN 978 0 7504 4429 3.

(**2**) 1971 p.80.

**Interpretation**

**2**. In this Order—

"areas of learning" ("*meysydd dysgu*") means the areas of learning set out in the document;

"the document" ("*y ddogfen*") means the document entitled "Foundation Phase Framework for Children's Learning for 3-7 year olds in Wales"(**1**) published by the Welsh Ministers and specifying the areas of learning, and the outcomes and educational programmes in relation to those areas of learning;

"foundation phase outcomes" ("*deilliannau cyfnod sylfaen*") means the outcomes set out in the document;"

"relevant areas of learning" ("*meysydd dysgu perthnasol*") means—

(i) mathematical development,

(ii) personal and social development, well-being and cultural diversity, and

(iii) language, literacy and communication skills;

"summer term" ("*tymor yr haf*") means the final term in a school year; and

"working day" ("*diwrnod gwaith*") means any day other than a Saturday, Sunday or a day which is a bank holiday within the meaning of section 1 of the Banking and Financial Dealings Act 1971(**2**).

**Teacher assessment - general**

**3**.—(1) The head teacher must make arrangements for each pupil to be assessed by a teacher in each relevant area of learning in accordance with the provisions of this article and for a written record of the results to be made by the teacher.

(2) The pupil shall be assessed and a written record of the results made by the teacher not later than twenty working days before the end of the summer term.

**Teacher assessment - relevant areas of learning**

**4**.—(1) The purpose of the assessment is to determine the foundation phase outcome attained by the pupil in each relevant area of learning.

(2) The record of the results must consist of a brief statement of each foundation phase outcome attained by the pupil in each relevant area of learning.

(**1**) ISBN number 978 0 7504 4429 3.

(**2**) 1971 c.80.

**Pwerau ategol Gweinidogion Cymru**

**5**. Caiff Gweinidogion Cymru wneud y darpariaethau hynny y mae'n ymddangos yn hwylus iddynt eu gwneud ac sy'n rhoi effaith lawn i'r darpariaethau a wneir o dan y Gorchymyn hwn (ac eithrio darpariaethau sy'n rhoi neu'n gosod swyddogaethau fel a grybwyllir yn adran 108(6) o Ddeddf Addysg 2002) neu sy'n ychwanegu atynt mewn ffordd arall.

**Supplementary powers of the Welsh Ministers**

**5**. The Welsh Ministers may make such provisions giving full effect to or otherwise supplementing the provisions made by this Order (other than provisions conferring or imposing functions as mentioned in section 108(6) of the Education Act 2002) as appear to them to be expedient.

*Leighton Andrews*

Y Gweinidog Addysg a Sgiliau, un o Weinidogion Cymru.

Minister for Education and Skills, one of the Welsh Ministers.

29 Gorffennaf 2011

29 July 2011

©Ⓗ Hawlfraint y Goron 2011

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2011

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

£4.00

W1011/08/11 ON